

ADDYSG GYNRADD GYMRAEG YM MAESTEG : 1949-2009

Nos Sul 18 Hydref 2009 yng Nghapel Canaan, Maesteg, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn, -Gwasanaeth o ddiolchgarwch i gydnabod 60 mlynedd o Addysg Gymraeg yn y Cwm. Yn ystod y gwasanaeth canwyd emyn enwog Lewis Valentine -Dros Gymru'n Gwlad a pha grynodedd mwy priodol o raglan y noson na'r geiriau agoriadol : Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri

Y winllan wen a roed i'n gofal ni.

Yn sgil y dathliadau, y bwriad oedd cyhoeddi llyfryn yn nodi'r achlysur a manteisio ar gyfle i gydnabod cyfraniad unigryw cynifer o gymwynaswyr a fu mor awyddus i drin y -winllan wen -honna a fu dan fygythiad cyhyd. Ar gais y brifathrawes, Mrs. Tegwen Ellis, ceisiais ail-fyw rhai o'r atgofion pell hynny drwy gyfrwng adroddiad a fyddai ar yr un pryd yn ddull o gydnabod ffydd ac ymroddiad y rhai a fu'n barod i herio awdurdodau'r cyfnod a hynny dan amodau digon anodd. Y nod yn syml, felly, oedd talu teyrnged i'r genhedlaeth honno a chreu cofnod o'r dyddiau cyffrous hynny a fu'n fan cychwyn i ddatblygiad addysg Gymraeg yn y cwm. Er na chyhoeddwyd y llyfryn yn y pen draw, roedd yr adroddiad wrth law. Gobeithio, felly, y bydd cyhoeddi'r sylwadau yn Yr Hogwr yn ddull o ail-greu'r cyfnod ac atgoffa pawb o weledigaeth y garfan arloesol honno. O bosib, dylai fod i'r adroddiad is-deitl : Gwell hwyr na hwyrach !

Wrth olrhain hanes addysg Gymraeg yng Nghwm Llynfi, peth naturiol yw inni gydnabod pwysigrwydd y cyfarfod hanesyddol a gynhaliwyd yn Aelwyd y Llwyni ym Maesteg brynhawn Iau, 17 Chwefror 1949, dan lywyddiaeth Mr. D. Lloyd Evans, Caerau. -Cawsom y fraint, meddai'r cofnodion, -o ennill diddordeb Syr Ifan ab Owen Edwards yn ein hymdrech a bu'n garedig yn dod i lawr, i drafod rhai materion gyda ni. Wrth gwrs, roedd gan y g r hwnnw brofiad ymarferol o'r maes am iddo fod yn gysylltiedig â sefydlu a chynnal Ysgol Lluest yn Aberystwyth ryw ddegawd ynghynt yn 1939. Ar ôl canmol y pwyllgor a'r athrawon am eu gwaith arloesol, cyfeiriodd at y -sianelau newydd y gellid manteisio arnynt yn sgil Deddf Addysg 1944. Yna ceir cyngor hollol benodol : -Cymhellodd ni i agor ysgol breifat dros dro, hyd nes yr agorid ysgol o dan y Bwrdd Addysg. Rhaid fuasai dewis athrawes gyfrifol, a'r thalu, heblaw wynebu costau goleuo, glanhau etc. Cynhaliwyd cyfarfod pellach yn ddiymdroi ac ar yr achlysur hwnnw (22:2: 1949) penderfynwyd -ein bod yn agor ysgol yn union wedi Pasc. Er mai festri Soar yng nghanol y dref oedd y dewis cyntaf, daethpwyd i'r casgliad -nad oedd y lle yn gwbl addas (28:2:1949) ac ar ôl gwaith chwilota ac asesu manwl ar ran y pwyllgor, -y man mwyaf tebygol, gredent hwy, oedd festri eglwys Bethania : fod digon o le yno, a phethau angenrheidiol at gynnal yr ysgol. (23:3:1949) Afraid dweud nad oedd modd llusgo traed ac mewn cyfarfod pellach a gynhaliwyd 21 Ebrill 1949, roedd yr ysgrifennydd sef y Parch Geraint Owen, yn gallu adrodd iddo ymweld â Miss Nansi Roberts yn Nhrefor a Chaerynwech (Dolgellau) Ac ag athrawes arall Miss Enyd Walters o Goleg Llandrindod. Dyma'r ddwy athrawes a fu, ymhen fawr o dro, yn gyfrifol am sefydlu'r ysgol ym Maesteg pan agorwyd y drysau yn festri Bethania ar ddechrau tymor y pasg yn 1949.

Ar wahân i'r her o sicrhau athrawon priodol, roedd rhaid i'r pwyllgor fod yn gyfrifol am godi swm sylweddol o arian er mwyn talu'r cyflogau, er mwyn sicrhau cludiant ac er mwyn prynu amrywiaeth o offer ac adnoddau dysgu. Ar yr un pryd, bu raid cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda swyddogion yr awdurdod addysg gyda'r bwriad o

dros glwyddo awenau iddynt hwy cyn gynted ag y byddai cartref hwylus ar gael. Golygai hyn gryn ymroddiad ar ran yr holl rai a fu ynghlwm wrth y fenter ac roedd arweiniad y Parch. Geraint Owen (Bethania) yn allweddol wrth iddo weithredu fel ysgrifennydd hynod weithgar drwy misoedd tyngedfennol a phrysur hyn. Adlewyrchir y prysurdeb ymroddedig hwn mewn cyfres o adroddiadau i wasg, yn enwedig yn yr hyn a gofnodwyd yng ngolofna *Advertiser*, y papur wythnosol lleol. Bu dirprwyaeth yn cwrdd â chynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg mor gynnar â Chwefror 1948 gan dderbyn ymateb cadarnhaol wrth i swyddogion addo to place the proposed Welsh School on the schools re-organisation plan for the Llynfi Valley (*The Advertiser*, 13:2:1948). Roedd aelodau ddirprwyaeth yn effro i sianelau hynny y cyfeiriodd Syr Ifan atynt that the Education Act of 1944 granted facilities enabling Welsh people to petition the local authorities for the provision of schools in which to teach their children the language of the hearth Daeth llwyddiant o gam i gam. Agorwyd Aelwyd y Llwyni ym mis Mai 1948 gyda 50 blant er bod 15 ar y gofrestr erbyn Ionawr 1944. (Gw. *The Advertiser*, 28:1:1949) Gwelwyd sefydlu ysgol yn festri Bethania erbyn tymor yr haf 1949 gyda hanner cant o blant yn bresennol, ac ysgol swyddogol dan ofal yr Awdurdod Addysg erbyn Medi yn yr un flwyddyn. Gallai *Advertiser* bellach gyfeirio at Maesteg New Welsh School: As was stated last week, the Welsh School will open at Nant-yffyllon on Wednesday September 6. Children who can speak Welsh and who are between the ages of four and 11 years will be admitted. There will be about 60 children admitted. (*The Advertiser*, 12:8: 1949) Mae'n werth nodi mai ar gyfer plant a oedd eisoes yn siarad Cymraeg y bwriedid yr ysgol yn y dyddiau cynnar ac mai nod oedd cadw ddarpariaeth yn festri Bethania for the sake of those children who understand Welsh but are not fluent in speaking the language, and also for children under the age of four years.

Ar wahân i cofnodi ffeithiol, gallaf ychwanegu i mi fod yn un o fintai honno a oedd yno ar y cychwyn cyntaf. Mae gen i frith gof o cyfnod a dreuliwyd yn festri Bethania ac amseroedd chwarae ar lethrau Coed y tu cefn i capel er na allaf gynnig unrhyw adroddiad o diwrnod cyntaf hwnnw yn Nant-yffyllon. Fodd bynnag, roedd yn bur amlwg y byddai ysgol yn denu cryn gyhoedduswydd ac ambell sylw digon pigog hefyd gan aelodau garfan honno a oedd yn gyndyn i weld y fath ddatblygiad. Er enghraifft, byddai'n rhaid ateb y ddadl yngl n â safle Saesneg o fewn yr ysgol yn syth ac mewn adroddiad yn cyhoeddi sefydlu ysgol roedd yna neges bwrpasol ac eglur ar gyfer gwarcheidwaid yr iaith Saesneg: To avoid any misconceptions, and to dispel rumours, let it be as widely known as possible that Welsh and English will be taught in the new school. Every pupil will be taught in the two languages without exception. (*The Advertiser*, 12:8: 1949) Ond wrth gwrs, roedd un bwgan arall am mai hwn oedd cyfnod y l plus Roedd y dadleuon unwaith eto wedi paratoi ar sail tystiolaeth ddigon cadarn o gyfeiriad Aberystwyth a Llanelli: Just a word about the bogey of scholarships It has been said by those who do not want the school to flourish that the Welsh School will be a handicap to pupils who wish to enter the scholarship examination. --- Official figures are available if there are any doubters Cyfeirir yn benodol at lwyddiannau amlwg plant Aberystwyth a Llanelli y naill garfan a llall wedi disgleirio yn yr arholiad fel bod y neges yn ddigon eglur sef bod the so-called Welsh handicap exists only in the minds of those who do not know the truth or who do not wish to know

Ar lefel bersonol, rwy'n cofio'n iawn fod yna bwysau -11 plusø amlwg ar yr Ysgol yn y dyddiau cynnar a bod carfan arbennig o amheuwyr llafar yn archwilio pob rhestr o ganlyniadau er mwyn canfod unrhyw dystiolaeth negyddol. Wrth baratoi'r sylwadau hyn, bues yn chwilota drwy bentwr o hen bapurau a defnyddiau personol sy'n perthyn i'r cyfnod dan sylw. Yn eu plith mae hen lyfr gwaith cartref sy'n cynnwys yr holl dasgau a osodwyd ar fy nghyfer yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd o Awst 1953 tan fis Mawrth 1954, mis arholiad y -11 plusø os cofiaf yn iawn. Teitl un darn a osodwyd ym mis Ionawr 1954 oedd -Mewn Ciwø a derbyniasf nad oedd hwnnw'n ddewis mympwyol ar ran yr athro (Alun Rowe Thomas erbyn hynny) gan fod y pwnc yn un a osodwyd yn y papur ysgoloriaeth yn 1953. Wele ran agoriadol yr hyn a gyflwynwyd gennyf : -Un noson penderfynnais fynd i'r darlundy. Yr oeddem yn weddol o gynnar yn mynd allan o'r t , ond pan gyrraeddais y darlundy yr oedd ciw mawr dros ben yn aros yno. Cymerais fy lle yn y ciw. Cyn hir dechreuodd fwrw glaw. Agorodd pawb eu glawlenni, ac yr oedd yno lawlenni o bob math a lliwø Go brin bod angen i mi dynnu sylw at y ffurfiau gorgywir hynny sydd bellach wedi hen ddiflannu ond a oedd yn rhan o ffasiwn y cyfnod. Roedd rhaid i ni blant osgoi unrhyw air neu ymadrodd a ystyrir yn gyfieithiad o'r Saesneg hyd yn oed pe bai'n hollol dderbyniol ar lafar. Ar wahân i'r pwyslais ar y øl 1 plusø dylwn bwysleisio i mi gael cyfle ar yr un pryd i ymestyn fy ngorwelion drwy ysgrifennu gwahanol ddarnau am Gerallt Gymro, William Williams, Hywel Harris, yr Esgob William Morgan, Daniel Owen a Syr Owen M. Edwards yn ogystal ag am -Bugeilio'r Gwenith Gwynø Cafwyd cyfle hefyd i ddatblygu chwaeth at rygbi a chriced er mai'r iard i raddau helaeth fu'n faes chwarae i ni.

Mae natur cymdeithas wedi newid yn ddirfawr er cyfnod sefydlu'r ysgol a'r rhyddid a gysylltir â theithio mewn car yn golygu nad oes rhaid i athrawon, bellach, fyw o fewn dalgylchoedd eu hysgolion. Roeddwn i, ar y llaw arall, yn bur ffodus i ddod o dan ddylanwad athrawon a oedd yn gynheiliaid eu cymuned fel bod modd elwa ar eu profiad a'u caredigrwydd y tu allan i furiau'r ysgol. Un o gefnogwyr mwyaf brwd yr Ysgol yn y dyddiau cynnar oedd Augustus John, un a gyfrannodd i'r llyfryn a gyhoeddwyd yn ystod dathliadau 1973. Ac eto, roedd gen i resymau eraill am gofio amdano. Roedd -Gusø fel y'f gelwid, yn enghraifft drawiadol o'r math o -ddyn rowndø a fyddai'n cyfrannu at amrywiaeth o weithgareddau cymunedol, un a oedd yn hollol gyfforddus mewn amrywiaeth o gyd-destunau academaidd, crefyddol a diwylliannol. Roedd yn athro Lladin arnaf yn yr ysgol uwchradd, yn athro Cymraeg arnaf yn yr Ysgol Sul lle trowyd aml sesiwn yn seminar gramadeg hynod ddifyr a defnyddiol, a byddai yno foreau Sadwrn yn yr haf yn cynnig cefnogaeth a chynghor i mi a'm cyfoedion a oedd yn cynrychioli'r ysgol ar faes criced tref Maesteg lle bu yntau'n ennill cryn enw iddo'f hun flynyddoedd ynghynt. Cymraeg, gyda llaw, fyddai cyfrwng pob sgwrs ym mhob cyd-destun. Yn yr un cyfnod, byddwn yn mynychu cyfarfodydd -T ør Cymryø yn rheolaidd ac yn elwa'n fawr ar y gwmniaeth a'r gefnogaeth garedig a gynigir i ddisgyblion ysgol. Yno byddwn yn cwrdd â Morgan D. Jones, fy athro Cymraeg ac ysgrifennydd y gymdeithas, a'r Archdderwydd Brinli a fu'n hynod garedig i mi yr adeg honno a thrachefn pan oeddwn yn fyfyrwr ymchwil rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Hynny yw, er nad oeddwn yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg, roedd natur y gymuned yn caniatáu i mi gadw cysylltiad â'r iaith mewn cyfres o gyd-destunau diwylliannol a chymunedol a fu'n gyfrwng magu ynof y parch at yr iaith Gymraeg a oedd yn nodweddiadol o agwedd yr holl gymwynaswyr a fu'n gefn i mi a'm cyfoedion.

Erbyn hyn, gellir elwa ar y ddarpariaeth uwchradd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ledled y rhanbarth a rhaid croesawu cam naturiol hwnnw y bu rhaid aros cyhyd amdano. Ac eto, gresyn na welir disgyblion heddiw, dan amodau cymunedol a chrefyddol pur wahanol, yn cael, neu, o bosib, yn dewis manteisio ar y math o raglenni a chysylltiadau diwylliannol a fu rhan o'r magwraeth i ym Maesteg. O ganlyniad, mae gwaith y gwahanol fentrau a grewyd er mwyn hybu gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg ar gyfer y to iau o'r pwys mwyaf ac yn haeddu pob cefnogaeth. Ar ben hynny, y gobaith yw y bydd sefydlu Ysgol Gymraeg Llangynwyd yn gyfrwng ail-greu math o fwrlwm o weithgareddau a fu hollol allweddol pan ddadleuwyd dros sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn y cwm drigain mlynedd yn ôl. Gellid dadlau bod angen ymgyrchu heddiw yn fwy nag erioed, nid yn unig er mwyn codi canran o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg drwy greu rhagor o ysgolion cymunedol, ond er mwyn sicrhau bod y disgyblion presennol yn gallu manteisio ar raglenni atodol a chyffrous sy'n sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn iaith dosbarth ond yn gyfrwng mwynhad a chymdeithasu naturiol. Ar adeg fel hon, felly, mae'n briodol i ni gydnabod campau cymwynaswyr cynnar ac edmygu eglurder eu gweledigaeth a chadernid eu hymgyrchu. Yng ngeiriau Brinli, prifardd ac Archdderwydd y Cwm :
-Daeth encyd i ddweud ðThanciwö